# Hysbysiad Statudol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr ysgol pob oed 3 i 16 newydd, Ysgol Afon Wen, Lôn yr Ysgol, Y Ddraenen-wen, Pontypridd, CF37 5AL, drwy gynnig 14 lle i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 mewn Dosbarth Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA). Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy www.rctcbc.gov.uk/ymgynghoriadauysgolion

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Ar hyn o bryd does dim modd rhagamcanu niferoedd disgyblion a rhagweld gwybodaeth ar gyfer yr ysgol pob oed newydd. Mae 1260 o leoedd yn yr ysgol. Mae lle wedi'i gynnwys yn nyluniad yr adeilad newydd i gynnwys y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 10 Hydref 2023

**Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i’r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.

2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddosbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.

3. Mae angen ehangu darpariaeth ASA Cyfnod Allweddol 3/4 yn yr Awdurdod Lleol.